

2021 Rhif (Cy.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470
(Cylchfan Swansea Road, Merthyr
Tudful i Ffynnon Taf, Rhondda
Cynon Taf) (Gwaharddiad a
Chyfngiad Traffig Dros Dro) 2021

Gwnaed *30 Mehefin 2021*
Yn dod i rym *5 Gorffennaf 2021*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A470, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu gyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cylchfan Swansea Road, Merthyr Tudful i Ffynnon Taf, Rhondda Cynon Taf) (Gwaharddiad a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2021 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 5 Gorffennaf 2021.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—
ystyr “cerbyd esempt” (“exempted vehicle”) yw:

2021 No. (W.)

ROAD TRAFFIC, WALES

The A470 Trunk Road (Swansea Road Roundabout, Merthyr Tydfil to Taffs Well, Rhondda Cynon Taf) (Temporary Traffic Prohibition & Restriction) Order 2021

Made *30 June 2021*

Coming into force *5 July 2021*

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A470 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited and/or restricted because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Title and commencement

1. The title of this Order is the A470 Trunk Road (Swansea Road Roundabout, Merthyr Tydfil to Taffs Well, Rhondda Cynon Taf) (Temporary Traffic Prohibition & Restriction) Order 2021 and this Order comes into force on 5 July 2021.

Interpretation

2. In this Order—

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means:

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrd 1984(1); a
- (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmyntion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

- (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
- (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 5 Gorffennaf 2021 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod o'r gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A470 Caerdydd i Llangurig;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(1); and

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

- (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
- (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A470 Cardiff to Llangurig trunk road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 20:00 hours on 5 July 2021 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

Gwaharddiad a chyfngiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o gilfannau'r gefnffordd ac ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwysyo

5. Ni fydd y gwaharddiad a'r cyfngiad yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Prohibition and restriction

3. No person may, during the works period, drive any vehicle on the lengths of the trunk road lay-bys and the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

4. No person may, during the works period, drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 50 miles per hour on the length of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

Application

5. The prohibition and restriction in articles 3 and 4 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(1) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(1) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

Atal dros dro

6. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 4 yn weithredol.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

30 Mehefin 2021

Suspension

6. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the length of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order are suspended during such times as the restriction specified in article 4 is in operation.

Duration of this Order

7. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

ATODLEN 1 Gwahardd cerbydau dros dro

Y darnau o bob cilfan sy'n gyfagos i gerbytffordd tua'r de y gefnffordd rhwng Cylchfan Swansea Road, Merthyr Tudful a chyffordd Ffynnon Taf.

Y darn o'r ffordd ymadael tua'r de nad yw'n cael ei defnyddio mwyach rhwng cyffordd De Pontypridd a chyffordd Glyn-taf.

Y darn o'r gilfan sy'n gyfagos i gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd a leolir rhwng Cylchfan Abercynon a Chylchfan Abercannaidd.

ATODLEN 2 Terfyn cyflymder 50 mya dros dro

Y darn o gerbytffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o Gylchfan Rhyd-y-car i Gylchfan Abercannaidd.

SCHEDULE 1 Temporary prohibition of vehicles

The lengths of all lay-bys adjacent to the southbound carriageway of the trunk road between Swansea Road Roundabout, Merthyr Tydfil and Taffs Well junction.

The length of the southbound abandoned slip road between Pontypridd South junction and Glyntaff junction.

The length of the lay-by adjacent to the northbound carriageway of the trunk road located between Abercynon Roundabout and Abercanaid Roundabout.

SCHEDULE 2 Temporary 50 mph speed limit

The length of the southbound carriageway of the trunk road that extends from Rhydycar Roundabout to Abercanaid Roundabout.